Neuadd y Sir
Y Rhadyr
Brynbuga
NP15 1GA

Dydd Mawrth, 2 Medi 2025

## Hysbysiad Cyfarfod

# Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol

## Dydd Mercher, 10fed Medi, 2025 at 3.00 pm,
## Siambr y Cyngor, Nueadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga NP15 1GA

# AGENDA

| Rhif Eitem | Eitem | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | **Cadarnhad o benodiad yr Aelod Cabinet dros Addysg gan Gyngor y Cabinet fel Cadeirydd CYS** | |
| 2. | **Penodi Is-gadeirydd** | |
| 3. | **Croeso, cyflwyno aelodau newydd ac ymddiheuriadau am absenoldeb** | |
| 4. | **Datganiadau o Fuddiant** | |
| 5. | **Cyflwyniad: Staff o Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru'r Archesgob Rowan Williams** | |
| 6. | **I nodi cofnod y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 19eg Mawrth 2025 a'r Paneli Recriwtio a gynhaliwyd ar 19eg Mawrth 2025 a 26ain Mehefin 2025** | 1 - 12 |
| 7. | **Diweddariad ar Aelodaeth** | 13 - 14 |
| 8. | **I dderbyn diweddariad gan Gynghorydd CGM y GCA**<br>1. A50 a'r Arolygiad Catholig Rufeinig<br>2. Maes Llafur Newydd Catholig Rufeinig | |
| 9. | **Busnes CCYSAGauC**<br>1. Enwebiadau i Bwyllgor Gwaith CYSAGauC<br>2. Cofnodion Cyfarfod CYSAGauC Mawrth 2025 | 15 - 88 |

| | | |
|---|---|---|
| | 3. Adroddiadau Blynyddol CYS: Sleidiau o gyflwyniad Phil Lord<br>4. Llythyr CYSAGauC at Lynne Neagle, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg<br>5. Papurau ar gyfer cyfarfod haf CYSAGauC – 2ail Gorffennaf 2025 | |
| **10.** | **Adroddiad Blynyddol** | 89 - 102 |
| **11.** | **I nodi'r Blaengynllun** | 103 - 104 |
| **12.** | **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 3ydd Rhagfyr 2025 am 3pm** | |

**Paul Matthews**

**Prif Weithredwr**

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL
CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:
:

| | |
|---|---|
| Cynghorwyr Sir:: | Louise Brown<br>Rachel Buckler<br>John Crook<br>Paul Pavia<br>Angela Sandles<br>Laura Wright<br>Su McConnel<br>T. Bryant |

**Yn cynrychioli'r Eglwys yng Nghymru (1)**

**Yn cynrychioli'r Eglwys Gatholig Rufeinig (1)**

Bev Bannon

**Yn cynrychioli Eglwysi Rhydd (4)**

Revd. J Greaves

**Yn cynrychioli Ffydd Bahá'í (1)**

Mrs S. Cave

**Yn cynrychioli'r Ffydd Bwdhaidd (1)**

**Yn cynrychioli'r Ffydd Hindŵ (1)**

Vacancy

**Yn cynrychioli'r Ffydd Iddewig (1)**

Vacancy

**Yn cynrychioli'r Ffydd Sikh (1)**

Vacancy

**Yn cynrychioli'r Ffydd Mwslimaidd (1)**

Maddie Saraireh

**Yn cynrychioli Cymdeithasau Athrawon (7)**

2 xVacancy
Charlotte Rhodes
Susan Marles
Tina Bryant
Gareth James
Claire Rosato

**Argyhoeddiad athronyddol anghrefyddol (1)**

Phillip Middleton

**Aelodau a Gyfetholwyd (2)**

Vacancy
Vacancy

**Cynghorydd Addysg Grefyddol**

Hayley Jones (EAS)

Sharon Randall-Smith cynrychioli'r Prif Swyddog, Plant a Phobl Ifanc

## Gwybodaeth Gyhoeddus

**Mynediad i gopïau papur o agendâu ac adroddiadau**
Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

**Edrych ar y cyfarfod ar-lein**
Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

**Y Gymraeg**
Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn gyda dyledus barch i chi roi 5 diwrnod o hysbysiad cyn y cyfarfod os dymunwch siarad yn Gymraeg fel y gallwn ddarparu ar gyfer eich anghenion.

# Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

### Ein Pwrpas

- i ddod yn sir ddi-garbon, gan gefnogi lles, iechyd ac urddas i bawb ar bob cam o'u bywydau.

### Amcanion rydym yn gweithio tuag atynt

- Lle teg i fyw lle mae effeithiau anghydraddoldeb a thlodi wedi'u lleihau;
- Lle gwyrdd i fyw a gweithio gyda llai o allyriadau carbon a gwneud cyfraniad cadarnhaol at fynd i'r afael â'r argyfwng yn yr hinsawdd a natur;
- Lle ffyniannus ac uchelgeisiol, lle mae canol trefi bywiog a lle gall busnesau dyfu a datblygu;
- Lle diogel i fyw lle mae gan bobl gartref maen nhw'n teimlo'n ddiogel ynddo;
- Lle cysylltiedig lle mae pobl yn teimlo'n rhan o gymuned ac yn cael eu gwerthfawrogi;
- Lle dysgu lle mae pawb yn cael cyfle i gyrraedd eu potensial.

## Ein Gwerthoedd

**Bod yn agored**. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

**Tegwch**. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrando ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

**Hyblygrwydd**. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

**Gwaith Tîm**. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatryswyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.

**Caredigrwydd** – Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb yr ydym yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthnasoedd a'r cysylltiadau sydd gennym â'n gilydd wrth wraidd pob rhyngweithio.